# COURGETTES

## 1 HAU DY HADAU

Gelli di hau'r hadau o fis Ebrill ymlaen mewn potiau. Heua un hadyn ym mhob potyn, 1cm o ddyfnder. Rhaid i ti roi'r hadau ar eu hochr, nid yn fflat, neu byddan nhw'n pydru. Cadwa nhw yn y tŷ gwydr a chofia roi dŵr iddyn nhw.


## 2 PLANNU ALLAN

Planna dy blanhigion bach allan pan fydd pedair deilen o leiaf gyda nhw (dail crwn yr hedyn fydd dwy o'r rhain, a bydd dwy yn edrych yn fwy ac yn fwy onglog). Planna nhw gan adael o leiaf 50-90cm rhwng pob un (yn dibynnu ar y math).

## 3 CYNAEAFU

Mae courgettes yn barod i'w hel pan fyddan nhw'n 15cm o hyd. Torra'r courgettes oddi ar y planhigyn wrth ymyl y prif goesyn gyda dy siswrn tocio.

Os byddi di'n eu hel nhw'n rheolaidd, bydd y planhigyn yn dal ati i gynhyrchu courgettes.




COFIA

Pan fydd y planhigion courgette yn dechrau blodeuo, mae angen eu dyfrio'n rheolaidd. Ond maen nhw'n casáu dŵr ar eu dail.

Gelli di fwyta blodau courgette hefyd, felly gwna'n siŵr dy fod ti'n cynaeafu'r rhain ac yn eu defnyddio nhw mewn salad. Neu gelli di eu llenwi nhw â chaws meddal a pherlysiau. Os byddi di'n anghofio hel courgette bydd yn dal ati i dyfu ac yn troi'n faro.



Newydd egino



Planhigion ifanc



Barod i'w hel

CARDIFF CAERDYDD

All Saints Educational Trust

TREES FOR CITIES